

# Ffydd – gweithred

“*‘Ewch i’ch dangos eich hunain i’r offeiriad.’ Ac ar eu ffordd yno, fe’u glanhawyd hwy.*” (adn. 14)

## Beth am ddarllen Luc 17:11–19 ac yna myfyrio

Ddoe, fe welwyd bod ffydd yn tyfu wrth inni ganiatáu i’r gwirionedd sydd yng Ngair Duw gael ei agor i’n meddyliau ac i’n calonnau a thrwy feddiannu yr addewidion. Ffordd arall mae ffydd yn tyfu yw trwy weithio allan ein ffydd. Mae un yn ein cynorthwyo i ddeall hyn trwy ddweud: “Darluniwch eryr bychan yn edrych dros ei nyth i wagle. Mae’n bosibl y gallai’r awyr ei ddal i fyny ond onid yw yn ffwlbri noeth i neidio i’r gwagle hwn? Onid yw marwolaeth yn aros yr aderyn bach os bydd yn mentro o’i nyth? Ond mae rhywbeth ynddo yn ei gyffroi ac mae’n lledu ei adenydd, neu mae’r fam yn chwalu’r nyth gan ddwyn diogelwch y cyw oddi arno. Mae’n mynd dros yr ymyl ac yna’n fuan yn profi mai y gwagle yw’r elfen honno sydd wedi ei dyfeisio i’w ddal ac nid yn unig ei ddal ond ei godi i fyny i’r uchelder.” Mae’n hynod o bwysig ein bod yn lledu ein hadenydd ac yn caniatáu i awelon grymus yr Ysbryd Glân ein codi ninnau. Gall Duw wneud pethau rhyfeddol lle mae ffydd.

Roeddwn eisoes wedi cwblhau yr adran nesaf pan fu i’r Ysbryd sibrdw yn fy nghlust fod yr hyn yr oeddwn wedi ei ysgrifennu yn wahanol i’r hyn yr oedd wedi bwriadu i mi ei ddweud. Felly, dyma’r neges a roddodd i mi: “Os wyt ti angen gwrth yn dy fywyd heddiw, rhywbeth yr wyt yn gwybod ei fod yn iawn i ofyn i Dduw amdano, yna, ymarfer ffydd.”

Ychydig wedi i mi ddod yn Gristion, ysgrifennodd fy nhad y geiriau hyn yn fy Meibl: “Mae ffydd yn gadarnhad ac yn weithred sydd yn mynnu fod gwirionedd tragwyddol yn ffaith. Nid yn unig, rhaid cydnabod ffydd, ond rhaid gweithredu ffydd. Roedd y deg gwahanglwyf yn yr adran yr ydym wedi ei darllen heddiw wedi gweithredu ar orchymyn yr Iesu. Yr ydym yn darllen: “Ac ar eu ffordd yno, fe’u glanhawyd hwy.” Yn y weithred o ufudd-dod, fe drodd eu ffydd yn wirionedd a chafwyd iachâd. Ac felly, beth bynnag y mae’r Arglwydd yn ei ddweud wrthynt y funud hon, gwna hynny. Mentra allan, ond cyn i ti fentro ar dy ffydd, gwna yn siŵr mai llais yr Arglwydd yr wyt yn gwrando arno ac nid llais neb arall.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eseia 40:28–31; Math. 14:22–33; Ioan 9:1–7

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Ai agwedd neu gweithred yw dy ffydd?
2. Sut allwn ni brofi gwrthiau?

## Gweddi

O Dad, rwy’n sylweddoli fod ffydd nid yn unig yn gydnabod ond yn weithred. Maddau i mi fy mod mor aml yn disgwyl i ti weithredu pan wyt ti’n disgwyl i mi weithredu. Cynorthwya fi i weithredu ar fy nghredo. Yn enw Iesu. Amen.